Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Cw 1. Faint o aelodau staff parhaol newydd a ymunodd â'ch sefydliad yn 2022?

A1 - 9 aelod parhaol o 1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2022

Cw 2. Faint o aelodau staff parhaol newydd ddaeth drwy ddarparwyr allanol yn 2022?

A2 – 0

Cw 3. Faint o staff sy'n gweithio yn eich tîm recriwtio?

A3 – Nid oes gan Awdurdod Cyllid Cymru dîm recriwtio penodol. Yr adran Adnoddau Dynol, sydd â 5 o weithwyr, sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth recriwtio.

Cw 4. Faint o amser mae'n gymryd i benodi o hysbysebu hyd at gynefino?

A4 - Yr amser cyfartalog mae'n gymryd i benodi o hysbysebu i gynefino yw 107 diwrnod.

Cw 5. Beth oedd eich cyfradd athreuliad yn 2022?

A5 - O 1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2022 cyfradd athreuliad o 7.2%.

Cw 6. Beth yw eich cost gyfartalog fesul penodiad (gan gynnwys denu a sgrinio) yn 2022?

A6 - Nid ydym yn cyfrifo'r ffigur hwn felly ni allwn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Cw 7. Faint wnaethoch chi ei wario gyda darparwyr allanol ar gyfer recriwtio parhaol yn 2022?

A7 – 0

Cw 8. Faint o gontractwyr asiantaeth/gweithwyr dros dro unigol wnaethoch chi eu defnyddio yn 2022?

A8 - Un

Cw 9. Faint wnaethoch chi ei wario ar gontractwyr asiantaeth/gweithwyr dros dro yn 2022?

A9 - £3,193

Cw 10. Ydych chi'n cwrdd â'ch targedau amrywiaeth? (ydych neu nac ydych)

A10. - Roedd ACC yn y safle 1af ar gyfer 'Cynhwysiant a Thriniaeth Deg' yn Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 yn rhoi manylion ein cynnydd a mesuriadau o amcanion hirdymor: [Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (llyw.cymru)]

Cw 11. Faint o ymgeiswyr ymgeisiodd am swyddi yn 2022? Beth yw cyfradd gadael eich ymgeiswyr?

A11 – Ymgeisiodd 125 o ymgeiswyr am swyddi yn 2022.  Nid yw cyfradd gadael ymgeiswyr yn cael ei chasglu.

Cw 12. Pa systemau ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer eich proses recriwtio parhaol?
A12.  Rydym yn defnyddio system recriwtio Civil Service Jobs, gan ddefnyddio system olrhain ceisiadau recriwtio Oleeo vX.